SALISBURY, ENOCH ROBERT GIBBON (1819 - 1890), cyfreithiwr a chasglydd llyfrau

Enw: Enoch Robert Gibbon Salisbury
Dyddiad geni: 1819
Dyddiad marw: 1890
Plentyn: Philip Salisbury
Rhiant: Joseph Salisbury
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfreithiwr a chasglydd llyfrau
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 7 Tachwedd 1819 yn fab hynaf i Joseph Salisbury, Bagillt. Cododd o ddechreuadau dinod, ar ôl bwrw peth amser yn Lerpwl, i fod yn bennaeth gwaith nwy Caerlleon-fawr ac yn r amlwg ym mywyd cyhoeddus y ddinas honno. Yn 1850, troes at y gyfraith gan ymaelodi yn yr Inner Temple, ac yn 1852 galwyd ef i'r Bar; cafodd lawer o waith fel dadleuydd gerbron pwyllgorau'r Senedd. Bu am gyfnod byr (1857-9) yn aelod seneddol (Rhyddfrydol) dros Gaerlleon. Casglodd lyfrgell anarferol helaeth o lyfrau ar Gymru a'r goror - hon, heddiw, yw ' Llyfrgell Salisbury ' yng Ngholeg Caerdydd, ond y mae hefyd gryn nifer o'i lyfrau yn llyfrgell Coleg y Gogledd. Merch i'r gweinidog Annibynnol Arthur Jones o Fangor oedd ei briod. Bu farw yn Saltney, 27 Hydref 1890. Cafodd ei fab, PHILIP SALISBURY (a fu farw'n gynnar yn 1906), yrfa anturus fel milwr ym myddin Serbia ac wedyn yng ngwasanaeth y Belgiaid ar y Congo.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Albert Nicholson, Salisbury, Enoch Robert Gibbon (1819–1890)*Oxford Dictionary of National Biography*

Darllen Pellach

J. Hubert Morgan, A letter from a book collector; E. R. G. Salisbury, *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Cyf. 5, Rh. 1 (Awst 1937), tt.33-40

Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd: Cyflwyniad i Lyfrgell Salisbury: Llyfrgell 'Gymreig' gyntaf y byd (cyrchwyd Tachwedd 2020)

Erthygl Wicipedia: Enoch Salisbury

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16062575

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu